CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
12 Tachwedd 2024
AM 7.00 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, D Fowlie (Cynghorydd Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C Thomas, H Owens, R G Parry	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 08.10.24 fel cofnodion cywir. Cyng P Roberts yn cynnig a Cyng E Law-Shui Nicholson yn eilio yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes Chwarae CCTV** – Mae'r Clerc yn aros i glywed ymhellach gan y Brifathrawes. Mae'r mater yn dal gyda'r Cyngor Sir.
4.2	**Bin Lon Ty Hen** – Mae y Clerc wedi archebu bin.
4.3	**Draenio y maes Chwarae** - Mae'r Clerc yn aros am bris.
4.4	**Terfyn cyflymder Engedi** - Mae Comisiynydd yr Heddlu wedi codi'r mater hwn gyda'r Cyngor Sir. Maen nhw'n aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru.
4.5	**Mynwent Bryngwran** - Mae angen i'r Clerc gwrdd ag ymgymerwr yn y fynwent. Bydd y Cadeirydd hefyd yn bresennol fel y gellir trafod y goeden yn Mountain View.
4.6	**Swings maes Chwarae** – mewn llaw
4.7	**Traffig yn gadael Plas Crigyll** - Bydd rheolwr Plas Crigyll a'r Cyng D Fowlie yn ceisio siarad â Mr John Roberts ynglŷn â gosod polyn ar ei dir i ddal drych.
4.8	**Dosbarthwr bagiau cwn -** Nid yw'r Cyngor Sir yn gwybod pa dîm a dynodd y polyn a oedd yn dal y peiriant dosbarthu. Bydd y Clerc yn archebu dosbarthwr newydd
	Llofnod…….Cadeirydd 15.01.25

5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Diolchodd y Cadeirydd i bawb am gyd-dynnu drwy'r flwyddyn ac i'r Clerc am ei waith. Dymunodd nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr E Law-Shui-Nicholson a J Earnshaw am osod torchau ar y gofeb ar Sul y Cofio ar ran y Cynghorwyr Sir H N Evans a D Fowlie.
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
6.1	**Engedi 4080** - gweler 4.4
	Cynllunio
6.2	FPL/2024/275 Cais llawn ar gyfer estyniad i'r cwrtil preswyl yn Pen Y Groeslon, Engedi – dim sylwadau
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
8	**MATERION ERAILL**
8.1	**Bwrdd Ymddiriedolwyr Tywyn Trewan** - Awgrymodd y Cyng H N Evans fod y cyngor yn gofyn i'r Bwrdd am gopïau o gofnodion eu cyfarfodydd. Mae Cyngor Cymuned Llanfaelog yn gwneud yr un peth.
8.2	**Parcio Stryd Salem -** Codwyd cwyn ynglŷn â cheir wedi eu parcio gyferbyn â mynedfa Bro Mynydd. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod safle gyda'r Adran Priffyrdd.
8.3	Diolchodd y Cyng H N Evans i'r Cyng I Roberts am ei wasanaeth fel Cadeirydd dros y flwyddyn.
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
9.1	Roadware £167.88 (bin Lon Ty Hen)
9.2	Cyngor Gwynedd £360.00 (awdit 2023/2024)
9.3	Costau y Cadeirydd £47.85 + £73.67
9.4	Humphreys Waste £36.00 (Anf 15104)
9.5	Eisteddfor yr Urdd 2025 - Cytunwyd i beidio â gwneud cyfraniad gan y bydd angen i'r cyngor wneud cyfraniad mawr tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2026.
9.6	Adolygiad o gyflog y Clerc o Ebrill 2025 - Cytunwyd i gynyddu'r cyflog 2.2%
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 15.01.25